

# Presenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru: awgrymiadau ar gyfer cefnogaeth gan rieni a gofalwyr

Adroddiad gan Parentkind ar gyfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind

# Cyflwyniad

Gan fod absenoldeb disgyblion yn dal yn llawer uwch na'r lefelau cyn y pandemig ar hyn o bryd, mae gwella presenoldeb mewn ysgolion yn dal yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Roedd 29.0% o ddisgyblion yn absennol am o leiaf 10% o'r sesiynau ar gyfer y blwyddyn academaidd 2023/24[1] – trothwy diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer absenoldeb parhaus.

Roedd 46.1% o blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd wedi colli dros 10% o ddyddiau ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, ac o'r holl blant a nodwyd ag ADY, roedd ar 86.1%. Mae ystadegau cymaradwy o Loegr yn awgrymu y bydd gan tua hanner y plant hyn anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol neu feddyliol a nodwyd.

Dangosodd ymchwil ymysg plant ag ADY yng Nghymru gan yr Athro Ann John yn 2021, gyda charfan o 437,412 o fyfyrwyr yng Nghymru rhwng 7 ac 16 oed rhwng 2009 a 2013, fod disgyblion ag anhwylder niwroddatblygiadol ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol am fwy na 10% o wersi, a bod disgyblion sydd mewn perygl o hunan-niweidio fwy na thair gwaith yn debygol o fod yn absennol o'r ysgol ar yr un sail.[2]

Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Nodir bod y Cod 'wedi'i anelu at sicrhau bod ADY plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n gynnar a'u bod yn cael sylw'n gyflym er mwyn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial' (Llywodraeth Cymru, 2021).[3]

Roedd adroddiad ymchwil Parentkind 2023 'Deall absenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru' yn dangos bod rhieni plant absennol yn teimlo bod y cymorth presenoldeb a gafwyd gan ysgol eu plentyn yn gymysg (dywedodd 46% ei fod yn dda, tra bod 25% yn dweud ei fod yn wael) a bod problemau o ran hwylustod ac eglurder cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol, oedi o ran diagnosis ac ymyrraeth, a rhieni'n teimlo nad oedd ysgolion yn gwrando arnynt hwy a'u plentyn.

Comisiynwyd Parentkind i gynnal ymchwil ansoddol gyda rhieni plant sydd â lefelau sylweddol o absenoldeb yng Nghymru i helpu i nodi camau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu i wella presenoldeb mewn ysgolion.

Yn yr ymchwil hon, roedd gan y rhan fwyaf o'r rhieni y buom yn siarad â nhw blentyn ag anhwylderau niwroddatblygiadol sydd wedi cael diagnosis neu heb gael diagnosis, a oedd wedi bod yn ffactor allweddol a gyfrannodd at eu habsenoldeb hirdymor o'r ysgol. Siaradodd rhieni'n eang am y mathau o heriau yr oeddent wedi'u hwynebu, yn amrywio o'r gefnogaeth sydd ar gael i'r diwylliant sy'n bodoli yn ysgol eu plentyn. Er bod eu sefyllfaoedd unigol yn aml yn amrywio'n sylweddol, cafwyd nifer o feirniadaethau cyffredin a nifer o awgrymiadau tebyg ar gyfer gwella a fynegwyd yn annibynnol gan rieni mewn gwahanol grwpiau ffocws, yn enwedig ynghylch y potensial ar gyfer ymyrraeth gynnar fwy penodol cyn i broblemau waethygu.

Rydym wedi crynhoi prif ganfyddiadau ac argymhellion ein hymchwil yn yr adroddiad hwn, a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru wrth ystyried pa gamau gweithredu a allai fod yn arbennig o effeithiol o ran helpu i wella presenoldeb mewn ysgolion yn y tymor byr, ac i helpu i leihau nifer y sefyllfaoedd lle mae plant yn absennol o'r ysgol am gyfnodau hir.

[1] https://www.gov.wales/attendance-pupils-maintained-schools-4-september-2023-28-june-2024

[2] *John, A. (et al). Association of school absence and exclusion with recorded neurodevelopmental disorders, mental disorders, or self-harm: a nationwide, retrospective, electronic cohort study of children and young people in Wales, UK. The Lancet Psychiatry (2021), Vol. 9 Iss. 1*

[3] *Llywodraeth Cymru. Cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021. https://gov.wales/additional-learning-needs-code*

# Crynodeb o'r canfyddiadau

## 1. Dydy rhieni ddim yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw

Un mater cyffredin a godwyd gan rieni oedd nad oedd ysgolion yn eu credu nac yn ymddiried ynddynt wrth fynegi pryderon, gyda nifer yn disgrifio sut y newidiodd hyn i feio rhieni.

## 2. Oedi wrth asesu a chefnogi

Soniodd rhieni am oedi hir cyn cael asesiad o anghenion dysgu eu plentyn a gorddibyniaeth ar ddiagnosis meddygol ffurfiol. Ar ôl i gynlluniau cymorth gael eu rhoi ar waith, roedd y sefyllfa'n aml yn cael ei gwaethygu gan oedi pellach o ran cael y cymorth yr oedd ei angen.

## 3. Amgylchedd yr ysgol

Rhannodd rhieni brofiadau cadarnhaol a negyddol gydag ysgolion gan nodi bod amgylchedd cefnogol a chroesawgar wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran datrys problemau presenoldeb.

## 4. Darpariaeth i ddysgwyr

Soniodd rhieni am effaith diffyg darpariaeth arbenigol a chefnogaeth gyfyngedig i helpu eu plant i barhau i ymgysylltu ag addysg a dysgu pan fyddant yn absennol o'r ysgol.

## 5. Problemau gyda'r system ehangach

Roedd rhieni'n teimlo'n rhwystredig oherwydd diffyg atebolrwydd o ran asesu a chefnogi ac roeddent yn galw am well cydgysylltu rhwng gwasanaethau, yn ogystal â llai o ddibyniaeth ar ddull 'un ateb i bawb'.

## 6. Diffyg cefnogaeth i deuluoedd

Byddai rhieni'n gwerthfawrogi cyngor a chymorth cliriach ar sut i gefnogi anghenion eu plentyn a'u teulu gartref, yn ogystal â sut i sicrhau'r gefnogaeth iawn yn yr ysgol.



# Crynodeb o'r argymhellion

**1.** Cefnogi ysgolion i ddarparu dull mwy effeithiol ac empathig o ddelio â rhieni plant sydd â phroblemau absenoldeb parhaus.

**2.** Darparu asesiadau amserol o anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer yr holl blant sydd eu hangen.

**3.** Sicrhau bod mynediad priodol ar gael at gymorth ar gyfer anghenion dysgu ac iechyd meddwl ychwanegol plant, p'un a ydynt wedi'u hamlinellu mewn Cynllun Datblygu Unigol ai peidio.

**4.** Archwilio'r posibilrwydd o ddarparu dysgu ar-lein fel dewis arall yn lle mynd i'r ysgol ar gyfer plant nad oes modd diwallu eu hanghenion mewn ysgol neu leoliad darpariaeth arbenigol.

**5.** Creu storfa ganolog o gefnogaeth a chyngor i rieni plant â phresenoldeb isel.

**6.** Adolygu canllawiau cenedlaethol ar bresenoldeb i archwilio'r posibilrwydd o gofnodi ymgysylltiad plant ag addysg yn ychwanegol at fesurau presenoldeb ysgol penodol.

**7.** Adolygu sut mae perfformiad ysgolion o ran cyflawni yn erbyn y Cod ADY yn cael ei fesur.

**8.** Cynnal rhagor o ymchwil i ffyrdd effeithiol o gefnogi plant a theuluoedd sydd â phresenoldeb gwael, gan adeiladu ar ddulliau Ysgolion Bro a defnyddio swyddogion ymgysylltu â theuluoedd / cefnogi teuluoedd.



# Methodoleg

Roedd yr ymchwil hon yn defnyddio dull ansoddol. Fe wnaethom gynnal pum grwp ffocws a oedd yn cynnwys 35 o rieni yr oedd eu plant yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran presenoldeb. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â deg ymarferydd ym maes Cyswllt Teulu a Lles Addysg o bob rhan o Gymru.

Gwahoddwyd rhieni o bob cwr o Gymru i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws a chynigiwyd cymhelliant ariannol bach am iddynt roi o'u hamser i ni. Cafodd grwpiau ffocws eu recriwtio gyda chymorth gan y grŵp cefnogi rhieni a gofalwyr, Lleisiau Rhieni yng Nghymru, a chawsant eu cynnal ar-lein rhwng 4 a 13 Mawrth 2024.

Fel mae'r tabl canlynol yn ei ddangos, roedd gan y rhan fwyaf o'r rhieni y buom yn siarad â nhw blant sydd â chymysgedd o anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi cael diagnosis a heb gael diagnosis.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ddaeth i'r grwpiau ffocws yn dod o Dde Cymru, gydag oddeutu 10% o'r rhai a oedd yn bresennol o Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Er nad oedd yn bosibl gwarantu cyfuniad cwbl gynrychioladol o'r holl rieni mewn grwpiau ffocws, clywsom gan rieni mewn cymysgedd o leoliadau gwledig a threfol, o deuluoedd un rhiant a dau riant ac o bwyntiau drwy gydol y daith drwy'r ysgol. Roedd gan bedwar rhiant blentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn famau; roedd un yn dad. Clywsom gan rieni nad oedd eu plant yn debygol o ddychwelyd i'r ysgol yn y tymor byr, a rheini yr oedd eu plant wedi dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser.

Cynhaliwyd deg cyfweliad ar-lein hefyd gydag ymarferwyr o bob cwr o Gymru rhwng 4 a 31 Ionawr 2024. Dosbarthwyd gwahoddiadau gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr ymarferwyr yn gymysgedd o Swyddogion Lles Addysg (EWO) a Rheolwyr Ysgolion Bro.

| Nodweddion y plentyn | Nifer y rhieni |
|---|---|
| Oedran cynradd | 12 |
| Oedran uwchradd | 23 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Oes | 24 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Na | 5 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Aros am asesiad | 6 |
| Presenoldeb isel[4] | 23 |
| Dim presenoldeb[5] | 12 |

[4] *Roedd plant a oedd wedi'u categoreiddio â phresenoldeb isel yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, gyda rhieni'n nodi cyfraddau presenoldeb ar gyfer 2023/24 hyd yma, sef rhwng 17% a 92%*

[5] *Nid yw'r plant a gategoreiddiwyd fel rhai â dim presenoldeb wedi mynychu'r ysgol ers rhwng 2 fis a 4 blynedd*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind

# Canfyddiadau

**Mae adborth gan rieni a thrafodaeth o'r grwpiau ffocws wedi cael eu dadansoddi a'u crynhoi i chwe phrif thema:**

## Thema 1: Dydy rhieni ddim yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw

Un mater cyffredin a fynegwyd gan rieni ar draws y grwpiau ffocws oedd **nad oedd athrawon a Chydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn eu credu nac yn ymddiried ynddynt** wrth fynegi pryderon am anghenion ychwanegol eu plant. Roedd hyn yn ymddangos yn brofiad arbennig o gyffredin yng nghamau cynnar plentyn â nodweddion niwrowahanol, yn enwedig pan oedd y plentyn yn masgio ymddygiad yn yr ysgol.

Disgrifiodd nifer o rieni sut y newidiodd hyn i **feio rhieni** am y problemau. Mewn rhai enghreifftiau, roedd hyn yn cynnwys trin ymatebion ymddygiadol gan y plentyn fel 'ymddygiad gwael' a mynnu bod y rhiant yn mynychu cyrsiau rhianta cyffredinol nad oeddent yn ddefnyddiol o ran cael gwell dealltwriaeth o anghenion eu plentyn. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys y bygythiad o ddirwyon am ddiffyg presenoldeb a rhybuddio'r plentyn y gallai ei riant gael ei anfon i'r carchar pe na bai'n mynd i'r ysgol. Dywedodd nifer o rieni bod ceisio cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen ar eu plant wedi bod yn 'frwydr'.

Mewn cwpl o achosion, disgrifiodd y rhieni sut roedd athrawon a CADYau yn herio dilysrwydd canfyddiadau ac argymhellion gan weithwyr meddygol proffesiynol ynghylch anghenion eu plentyn. Teimlwyd bod hyn fel arfer mewn ymateb i ddiffyg adnoddau i weithredu argymhellion, ond mewn un achos disgrifiodd rhiant sut yr heriodd y CADY y diagnosis ei hun.

Clywsom hefyd gan rieni a oedd yn disgrifio llwyddiannau. Un nodwedd gyffredin o'r rhain oedd bod athrawon yn gwrando arnynt a bod staff addysgu yn trin y rhiant a'r plentyn â pharch, a oedd yn ffactorau pwysig o ran helpu i ddatrys materion sy'n ymwneud â phresenoldeb.

*"Un o'r pethau anoddaf oedd y diystyru gan weithwyr proffesiynol. Dirywiodd fy merch pan oedd hi ar restr aros CAMHS, a hynny i gyd am nad oedd neb yn gwrando arnom. Roeddwn i'n gwybod bod rhywbeth difrifol o'i le ar fy mhlentyn. Mae'n dorcalonnus – rwy'n teimlo'n anobeithiol ar gyfer ei dyfodol, ar gyfer fy nyfodol, mae'n effeithio ar fy mherthynas â fy ngŵr. Dydy pobl y tu allan i'r sefyllfa ddim yn gallu ei dirnad. Pe bai hen ysgol gynradd fy merch wedi gwrando arna i, pe bai help wedi cael ei roi yn y cyfnod cynnar hwnnw, a fyddwn wedi gallu osgoi cyrraedd y pwynt hwn lle mae fy mhlentyn wedi torri, dydw i ddim yn gwybod sut mae hi'n mynd i ddianc o hyn?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parentkind

*"Doedden nhw ddim yn credu bod unrhyw beth o'i le arni oherwydd ei bod hi mor ddeallus, ac felly doedd dim posib iddi allu cael unrhyw broblemau. Doedden nhw ddim yn credu'r peth pan wnaethon ni gyflwyno'r llythyr diagnosis. Mae gen i ar ddu a gwyn, lle roedd y CADY wedi ysgrifennu nad oedd hi'n credu'r diagnosis awtistiaeth ac yn meddwl ei fod yn ffug."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Y peth gorau a fyddai wedi ein helpu ni, ac ni fyddem yn y llanastr hwn heddiw – pe byddem wedi cael ein credu pan aethom i'r ysgol gynradd am y tro cyntaf gyda diagnosis preifat o anhwylder prosesu synhwyraidd. Petaent wedi cymryd hynny o ddifrif ac wedi rhoi mesurau ar waith i'w gefnogi, dydw i ddim yn meddwl y byddai pethau wedi mynd mor ddrwg ag y maent."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Mae'n cymryd llawer i mi gyrraedd pen fy nhennyn, ond yn y pen draw dywedais, "Mae gen i dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ym maes iechyd meddwl, a dyma fy mab, peidiwch â dweud wrtha i fy mod i'n anghywir." Ymatebodd yr ysgol yn wahanol iawn ar ôl hynny."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Penderfynodd tîm anghenion ychwanegol yr ysgol mai'r ateb i mi, fel mam awtistig, oedd dilyn cwrs i ddeall awtistiaeth fy mhlentyn. Yna cafwyd bygythiadau o ddirwyon."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Allwch chi ddim cael eich clywed, ac ni ddylai rhaid i chi frwydro mor galed â hyn."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Doedd dim angen i ni gael ein hanfon ar gyrsiau rhianta am 8 wythnos."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Cysylltodd ysgol gynradd fy mab â'i seicolegydd addysg a dywedodd eu bod yn amau salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill – mae hynny bellach ar gofnodion meddygol fy mab. Roeddwn i ar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, yn gyfarwydd i staff yr ysgol, yn adnabod y pennaeth yn gymdeithasol. Cafodd hynny effaith enfawr ar fy iechyd meddwl fy hun. Roedd yr ysgol yn hapus i dderbyn fy ngwasanaethau gwirfoddol, ond pan ofynnais am help, nid oeddent yn credu fy mod yn dweud y gwir. Y gwrthwynebiad sy'n wirioneddol niweidiol - mae'r rhain yn wasanaethau sydd i fod i'ch helpu."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Pe bai fy mhlentyn yn yr ysgol yn crio bob dydd ac yn dweud 'Dydw i ddim eisiau mynd adref', allwch chi ddychmygu pa mor wahanol y byddai hynny'n cael ei drin?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Mae llawer o ganllawiau wedi canolbwyntio ar rieni sy'n ei chael hi'n anodd iawn ac sydd angen cymorth, ond nid oes llawer o gydnabyddiaeth bod ein carfan ni o rieni'n bodoli, ac efallai mai dyna pa bod rhieni yn cael eu beio o ganlyniad i'r system."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Agoron nhw'r cyfarfod drwy ddweud, 'Oeddet ti'n gwybod y gallai dy fam fynd i'r carchar os nad wyt ti'n mynd i'r ysgol?' Roedd yn teimlo eu bod yn rhoi gymaint o bwyslais ar bresenoldeb fel y bydden nhw'n gwneud beth bynnag roedden nhw'n gallu ei wneud i wella'r ffigurau, beth bynnag fo'r effaith ar blant neu deulu."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parentkind

*"Y cyfan roedden nhw'n gallu ei weld oedd plentyn deallus iawn, roedd hi'n masgio'n anhygoel o dda. Fe wnaethon nhw anwybyddu fy safbwynt, roedden nhw'n gwrthod credu bod rhywbeth gwahanol yn digwydd gartref."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rydw i eisiau teimlo bod rhywun yn gwrando arna i, nid fel fy mod i'n mynd yno ac yn dychmygu'r cyfan."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Roedd yn rhaid i mi ddelio ag ymdrechion fy merch i gyflawni hunanladdiad ar ôl gorfod mynychu nifer o ddosbarthiadau rhianta ar gyfer fy 'rhianta gwarthus'. Dywedwyd wrthyf ei bod hi'n iawn pan nad oedd hi'n iawn – nid oedd yr ysgol yn gwrando ar rieni."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rwy'n teimlo pe bai ysgolion yn deall y sefyllfa ac yn gwybod beth fyddai'n helpu, yna byddent wedyn yn gallu rhoi rhywbeth ar waith i helpu yn hytrach na bod rhiant yn ceisio brwydro i gael rhywbeth a pheidio â chael ei glywed. Mae'n wirioneddol anodd cael llais oherwydd bod cymaint o fiwrocratiaeth. Allwn ni ddim gwneud dim mwy na'r hyn rydyn ni i gyd yn ei wneud."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Roedd yr ysgol yn gefnogol iawn o ran bod ganddi orbryder, ond nid oedd ganddi ddiddordeb yn yr ochr anghenion dysgu ychwanegol nes i ni gael ei diagnosis, ac erbyn hynny nid oedd yr ymddiriedaeth yn yr ysgol rhyngom ni a'n merch yno mwyach."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n gallu teimlo eich bod yn wrthodedig mewn cymdeithas; 'Rydych chi'n rhieni drwg, allwch chi ddim cael eich plant i'r ysgol.'"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**



# Thema 2: Oedi wrth asesu a chefnogi

Soniodd rhieni y buom yn siarad â nhw am **oedi hir cyn i'w plant gael asesiad** o'u hanghenion dysgu a oedd yn cael effaith sylweddol ar bresenoldeb yn yr ysgol. Er bod ymarferwyr wedi dweud wrthym nad oes angen diagnosis ffurfiol bob amser i sbarduno cymorth, nid oedd yn ymddangos mai dyma oedd profiad llawer o rieni a ddywedodd nad oedd ysgol eu plentyn yn darparu cymorth i'w plentyn i'w galluogi i fynd i'r ysgol.

Yn ogystal ag **amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau** o anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hamlygu gan rieni ac ymarferwyr – nid oedd adroddiadau am aros am ddwy i dair blynedd yn anghyffredin – yng ngolwg rhieni, cafodd y mater hwn ei waethygu gan y ffaith bod athrawon, nad oes ganddynt bob amser wybodaeth arbenigol am y cyflyrau hyn, yn penderfynu ar atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau a diagnosteg. Roedd ysgolion ac awdurdodau lleol **nad oeddent yn derbyn rhai asesiadau preifat** yn bryder arall a fynegwyd gan nifer o rieni.

Ar ôl nodi cymorth, boed hynny drwy asesiadau ffurfiol neu awgrymiadau gan yr ysgol, mae'r sefyllfa'n cael ei gwaethygu gan **oedi hir cyn i rai plant gael y cymorth angenrheidiol hwnnw**. O ran Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn benodol, dywedodd rhieni nad oedd athrawon **bob amser yn glynu wrth y trefniadau** a nodir yn eu CDU, nad yw CDU yn nodi anghenion meddygol cysylltiedig sy'n gallu effeithio ar ddysgu (e.e. alergeddau difrifol, meigryn) a'i bod yn fiwrocrataidd cael un wedi'i dderbyn neu ei newid.

Pan argymhellwyd addasiadau, dywedodd rhai rhieni nad oedd eu plentyn yn gyfforddus yn hunanddiffinio ei hun yn wahanol drwy addasiadau o'r fath, ac nad ydynt ychwaith yn gallu ymgysylltu'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol, ond yn hytrach na rhoi cynnig ar opsiynau eraill, adroddwyd bod y **cymorth wedi'i derfynu**.

Hefyd, gall fod gormod o ddibyniaeth ar **flaenoriaethu dychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl**, gan gynnwys cyn bod cymorth ar gael – dywedodd rhieni fod disgwyl i'w plant fynychu'r ysgol pan nad oedd unrhyw beth wedi newid iddyn nhw.

*"Mae'n ymwneud ag anghenion sydd heb eu diwallu i ni – mae bob amser wedi bod eisiau mynd i'r ysgol a dysgu, ond nid oedd ar gael iddo."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae diffyg diagnosis cynnar yn broblem enfawr. Mae'n effeithio ar iechyd meddwl y teulu a'r brodyr a'r chwiorydd; blinder o ganlyniad i gynifer o gyfarfodydd a chymaint o waith papur."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Pe bai plant yn cael eu helpu a'u cydnabod ac yn cael y sylw priodol yn gynnar, ni fyddai angen iddynt fynd drwy'r trawma o gael eu gorfodi i fynd i'r ysgol. Yn y pen draw, maen nhw'n cael eu creithio gan y profiad."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"[Mae] siawns fach iawn y bydd fy mhlentyn yn dychwelyd i addysg ffurfiol. Mae ymyrraeth gynnar yn sicr yn allweddol ... Dim ond cael y gefnogaeth honno pan fydd ei hangen arnoch. Byddai pethau'n wahanol iawn yn ein sefyllfa pe na bai ein merch wedi cael ei siomi."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Er gwaethaf ymdrechion gorau'r EWO, nid yw'n gallu mynd i'r ysgol. Nid yw wedi derbyn unrhyw wasanaeth sy'n ddyledus iddi, gan gynnwys CAMHS – sut gallwch chi ddisgwyl iddi ddod i mewn pan nad oes unrhyw beth wedi newid iddi?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Yr oedi o ran amseroedd aros am asesiad - plant yn aros am ddwy neu dair blynedd am asesiad, mae hynny wedi effeithio gymaint arnynt, maent wedi cael eu colli yn y system. Mae angen mynd i'r afael â hynny ar frys."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n ymddangos bod ymyriad cynharach hefyd yn ddefnyddiol – rydyn ni'n awyddus i gael EWO blynyddoedd cynnar. Po gyntaf y deuir o hyd i'r problemau a'u datrys; rydyn ni'n ceisio atal pethau rhag dod yn broblem fwy yn nes ymlaen yn yr ysgol."*
**— Ymarferydd**

*"Cynyddu'r ddarpariaeth iechyd meddwl, boed hynny gan CAMHS neu gyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol i gynyddu'r ddarpariaeth. Ar hyn o bryd, dim ond deg o blant sydd â phroblemau difrifol y gallwn ddarparu ar eu cyfer, ond mae llawer mwy sydd angen y gefnogaeth honno."*
**— Ymarferydd**



# Thema 3: Amgylchedd yr ysgol

Gwnaeth rhieni ac ymarferwyr nifer o sylwadau am amgylchedd yr ysgol. Dywedodd nifer o rieni **nad oeddent yn teimlo bod yr ysgol yn groesawgar**, gyda diffyg caredigrwydd ac empathi ymysg athrawon a staff. Tynnodd rhai rhieni sylw at yr amrywiaeth rhwng sut roedd gwahanol aelodau o staff yn gweld eu plant, gyda rhai athrawon yn ymwybodol o anghenion plentyn unigol ond nid eraill – yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Cyfeiriodd nifer o rieni at un aelod o staff cefnogol – '**ffrind dibynadwy**' – sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn.

Roedd rhai rhieni'n gallu rhannu profiadau negyddol a chadarnhaol gyda gwahanol ysgolion gan nodi bod amgylchedd mwy **cefnogol a chroesawgar yn gwneud cymaint o wahaniaeth** i'w plentyn sy'n mynychu'r ysgol. Soniwyd hefyd am wahodd y plentyn i fod yn **rhan o gyfarfod a thrafodaeth** ar ei anghenion – yn enwedig plant hŷn.

Ymddengys fod gwahaniaethau mawr rhwng ysgolion o ran **sut yr ymdrinnir â materion**. I'r rhan fwyaf o'r rhieni y buom yn siarad â nhw roedd hyn o ganlyniad, yn rhannol, i'r CADYau a'u gwahanol lefelau o sgiliau a phrofiad: roedd rhai rhieni'n rhannu adborth cadarnhaol am CADYau cefnogol iawn, tra bod eraill yn rhoi sylwadau mwy negyddol, gan gydnabod bod hon yn rôl heriol iawn, yn enwedig pan oeddent yn dal rolau eraill yn yr ysgol hefyd. Roedd consensws ar draws rhieni y dylai'r CADY, yn ddelfrydol, fod yn **rôl amser llawn**, nid yn rhywun sydd hefyd yn athro rhan amser.

Roedd rhieni'n galw'n eang am **hyfforddiant gorfodol i'r holl staff ar niwroamrywiaeth**, a soniodd rhai ymarferwyr am yr angen am hyfforddiant staff ar Osgoi Ysgol ar sail Emosiynol (EBSA) a chymorth sy'n seiliedig ar drawma.

Roedd cwpl o rieni wedi dod yn llywodraethwyr ysgol mewn ymdrech i 'ymdreiddio i'r system', i wella eu gwybodaeth eu hunain am y system yn ogystal ag annog staff i ddeall sut mae'r sefyllfa wedi effeithio ar eu teuluoedd.

*"Pan aeth pethau'n ddrwg iawn y tro cyntaf, byddai ychydig o garedigrwydd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y byd. Pe bydden nhw wedi ystyried y pethau roeddwn i'n eu dweud, dydw i ddim yn meddwl y byddai'r trawma wedi bod mor ddrwg ag y mae ar hyn o bryd."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Gall sylwadau fel, 'Does dim cinio i ti,' neu, 'Wel, ti'n hwyr heddiw,' ysgogi ymateb yn fy mhlentyn ar ôl yr holl frwydr a'u cael mor bell â hynny."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rwyf wedi cyrraedd pwynt o ddioddef gorbryder pan fydd raid i mi fynd i lawr yno. Rwy'n gofyn i fy ngŵr i ddod i lawr gyda fi oherwydd rwyf wedi cael sylwadau fel y derbynnydd yn dweud wrth fy merch, 'Mae'n rhaid i hyn stopio, elli di ddim cario ymlaen fel hyn.'"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Y parodrwydd i wrando a chael gwybod beth sy'n digwydd gyda nhw yn hytrach na siarad a bod mor feirniadol drwy'r amser."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Cefais fy annog i fynd ag ef i'r ysgol yn erbyn ei ewyllys, ac fe wnes i hynny am gryn amser. Wrth bwyso a mesur, rwy'n teimlo'n euog am hynny."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Cynnig y syniad o waith tîm a chydweithio i rieni. Rydw i eisiau gweithio gydag eraill i ddatrys pethau, does dim pwynt mynd i frwydr gyda rhieni, mae'n rhaid i'r ateb ymwneud â chydweithio."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'r ysgol wedi bod yn wych – wedi'i heithrio rhag cael ei chadw ar ôl ysgol, maen nhw'n deall ei bod hi'n cyrraedd yn hwyr os yw hi'n cael trafferth. Dim beirniadaeth ganddynt o gwbl."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Ni allai'r Uwch Dîm Arwain yn benodol fod yn fwy gwahanol. Yn yr hen ysgol roedd hi'n flwch i'w dicio, robot bach roedden nhw eisiau ei defnyddio. Roedd yr ysgol newydd yn ei thrin fel person, bod dynol go iawn, ac yn wirioneddol yn gofalu amdani. Ac fe weithiodd, oherwydd ni fu unrhyw absenoldeb yn yr ysgol newydd. Cawsom un digwyddiad lle roedd athro wedi camddarllen sefyllfa. Cafwyd cyfarfod gyda'r pennaeth a phennaeth yr adran, a'r ferch wedi'i chynnwys mewn cyfarfod – ymddiheurodd y pennaeth ei fod wedi digwydd, bod yr athro wedi camddarllen y sefyllfa, ac roedd y cyfarfod yn ymwneud â sut y gallent osgoi hynny, a'i chefnogi wrth symud ymlaen. Roeddwn i bron yn crio, oherwydd roedd yn ymddiheuriad ac yn esboniad didwyll."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Cafodd unrhyw broblemau eu datrys; agwedd cwbl wahanol i'r ysgol arall. Roedden nhw eisiau gweithio gyda hi a ni i wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio iddi hi."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Roedd gwneud iddo deimlo mai ef oedd y broblem wedi effeithio'n ddrwg arno am gyfnod mor hir... Mae un athro wedi addasu drwy ddweud ei fod yn gwybod bod angen iddo siarad, mae'n rhoi pum munud iddo wneud hynny, yna mae'n iawn. Mae athrawon eraill yn cwyno bod ei allu i ganolbwyntio a rhoi sylw yn wael."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rydyn ni wedi cael profiad da iawn gyda'r ysgol hyd yma. Yn gwneud popeth i helpu, gan geisio newid yr amserlen, maen nhw wedi rhoi mynediad iddo i'r ystafell les a phethau fel hynny, ac maen nhw'n cael sesiynau galw heibio wythnosol gydag ef. Rydw i'n teimlo eu bod nhw wedi bod yn gefnogol iawn." "*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Dydw i ddim yn meddwl bod fy mab wedi cael ei holi unwaith, 'Sut gallwn ni dy gefnogi di yn yr ysgol?' gan athro, dydy o ddim wedi cael ei gynnwys."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Ni ddylai ysgolion fod mor amddiffynnol, nid ein bai ni yw nad yw'r ysgol yn diwallu anghenion y plentyn. Dylent fod yn gwrando ar y plentyn a'r rhiant, ond nid ydynt. Maen nhw'n disgwyl i fy merch wneud yr holl newidiadau, ond pan fydd hynny'n ormod, dydy hi ddim yn gallu gwneud hynny."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n anodd dod o hyd i'r gefnogaeth gan mai dim ond ystyried presenoldeb y mae'r ysgol mewn gwirionedd – dydyn nhw ddim yn edrych ar y plentyn neu'r teulu cyfan."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rhoi mwy o groeso i'r rhieni yn yr ysgol... Os ydyn nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus gydag ysgolion a'r system addysg, byddan nhw'n cysylltu mwy, ac yn pwyso mwy am yr hyn sydd ei angen ar eu plant. Bydd y rheini nad oes ganddynt yr ymddiriedaeth honno yn ymddieithrio ac yn amddiffynnol wrth geisio gweithio ar gynlluniau."*
**— Ymarferydd**

*"Rydw i eisiau rhoi halo ar y CADY: dydy hi byth yn gwneud i unrhyw beth deimlo fel gormod o drafferth, mae hi'n achub y blaen ar yr hyn sydd ei angen arnoch chi, mae hi'n siarad â'n plant fel eu bod nhw'n fodau dynol. Gyda phob rhyngweithiad rydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich deall a bod rhywun yn gwrando arnoch chi, yna'n mynd i ffwrdd ac yn ceisio darparu'r hud a lledrith rydych chi wedi gofyn iddi ei wneud yr wythnos honno. Weithiau rydym yn teimlo ein bod wedi gofyn y amhosibl...ond mae'r CADY llawn amser yn gallu ei roi ar waith... mae mor werthfawr cael rhywun rydych chi'n teimlo y gallwch ymddiried ynddo i weithredu er budd gorau eich plentyn."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae gan yr ysgol y mae fy mhlant yn mynd iddi ddealltwriaeth sylfaenol ragorol o ADY, gorbryder a chyd-forbidrwydd cysylltiedig. Mae Pennaeth y Flwyddyn a thiwtor dosbarth yn siarad ac yn anfon e-bost ataf yn aml. Dywedodd y tiwtor dosbarth ei bod wedi cael profiad tebyg yn ei bywyd ei hun."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Sut ydyn ni'n gwneud yn siŵr nad yw CADYau yn dal yr holl gardiau iddyn nhw eu hunain – maen nhw i fod i uwchsgilio'r ysgol gyfan, ond cyn hyn roeddent yn gydlynwyr. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r wybodaeth ac yn lledaenu hynny a bod staff yn myfyrio ar ba mor dda y mae hyn yn gweithio?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Y broblem fwyaf i mi yw'r diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am niwroamrywiaeth a chefnogi plant niwroamrywiol."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Dylai pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â phlant gael hyfforddiant cynhwysfawr am wahanol fathau o niwrowahaniaeth, a dylid trin pob un ohonynt fel pobl, nid fel blwch ticio neu ystadegyn. Dysgu beth yw anghenion yr unigolyn hwnnw. Ac rwy'n meddwl mai dyna oedd y gwahaniaeth pan aethom i'n hail ysgol uwchradd. Dydw i ddim yn meddwl bod pob un o'r athrawon yn gwybod popeth, ond roedden nhw'n llawer mwy cydymdeimladol a thosturiol ac eisiau helpu."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Deuthum yn llywodraethwr ysgol, dysgu'r iaith, eistedd gyda'r Awdurdod Lleol wrth iddynt gyflwyno'r ddeddf newydd. Roedd fel ymdreiddio i'r system i ddysgu sut i'w llywio."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae dull ysgolion sy'n ystyriol o drawma yn gweithio'n dda. Roedd tua 70% o'r EWOau neu debyg wedi manteisio ar hynny, ond yn ddelfrydol mae angen i hynny fod ar draws arweinwyr ysgolion ac athrawon i weithio ar ei orau."*
**— Ymarferydd**

*"Mae angen hyfforddiant staff cynhwysfawr arnom mewn ysgolion, ynghylch EBSA, neu'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd bod yn bresennol. Mae presenoldeb yn fusnes ac yn bryder i bawb, mae'n fater i bawb ei wella."*
**— Ymarferydd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind

# Thema 4: Darpariaeth i Ddysgwyr

Yn ystod y grwpiau ffocws cawsom ein herio gan rai rhieni ynghylch ffocws yr ymchwil hwn, ac yn hytrach na gofyn pa gymorth y byddai rhieni'n ei werthfawrogi er mwyn annog eu plant i wella eu presenoldeb yn yr ysgol, dylem fod yn gofyn am **gymorth i helpu eu plant i ailafael yn eu haddysg a'u dysgu**; roedd gormod o ffocws ar ddychwelyd i'r ysgol.

Soniodd nifer o rieni am **ddysgu ar-lein** yn hyn o beth. Dywedodd rhieni fod eu plant wedi ymgysylltu â dysgu ar-lein ac roedd yn ffordd effeithiol o gynnal eu haddysg, ond bod y ddarpariaeth ar-lein yn gyfyngedig o ran amser a dim ond â'r bwriad o gefnogi dychwelyd i'r ysgol.

I rai plant nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol, mae'n ymddangos bod yr opsiwn o ddysgu ar-lein yn barhaol, neu ddysgu hyblyg, yn ateb i barhau â'u haddysg. Roedd cwpl o rieni wedi ymchwilio i ysgolion o bell ond roeddent yn teimlo bod eu costau'n afresymol.

Soniodd rhieni hefyd am **ddiffyg darpariaeth arbenigol** ar gyfer plant niwroamrywiol, gyda chyfleusterau cyfyngedig ar gyfer plant sy'n cael trafferth gydag amgylchedd ysgolion prif ffrwd. Dywedodd un rhiant fod ei theulu wedi ystyried adleoli i Fryste gan ei bod yn teimlo bod mwy ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yno.

Rhwystr arall i'w plant rhag mynychu'r ysgol yn rheolaidd oedd y **cwricwlwm ei hun**, gyda rhai rhieni'n dweud nad oedd yn addas i'w plentyn, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd. Ategwyd hyn gan rai ymarferwyr hefyd, gyda rhai'n awgrymu y byddai darpariaeth fwy galwedigaethol sy'n seiliedig ar sgiliau yn gwneud yr ysgol yn fwy deniadol a pherthnasol i rai pobl ifanc.

*"Derbyn addysg ddylai fod y canlyniad, ac mae'r ffocws ar bresenoldeb yn anghywir yn fy marn i. Roedd fy merch yn ffynnu pan oedden nhw'n cynnal yr ysgol ar-lein ac nid yw y tu hwnt i gwmpas a chyllideb Cymru gyfan i ddarparu llwyfan ar-lein i'r rheini sy'n methu mynd i'r ysgol."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rydw i wrth fy modd gyda'r syniad o addysgu hyblyg, ac mae'n codi'r cwestiwn ynghylch beth mae'r system ysgolion yn ceisio ei gyflawni – rwy'n eithaf siŵr nad yw'n ymwneud ag achosi trawma a phroblemau iechyd meddwl iddyn nhw."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Does dim darpariaeth arbenigol go iawn lle rydw i'n byw – uned cyfeirio disgyblion nad yw'n addas, ac ysgol anghenion arbennig nad yw wedi'i bwriadu ar gyfer rhywun disglair yn academaidd. Felly, does dim dewis arall ar ei chyfer."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae diffyg cyfleoedd enfawr o ran lleoliadau rhwng yr ysgol a'r ysgol arbenigol. Darpariaeth gyfyngedig iawn i'r rhai ag awtistiaeth a gorbryder y gellir grwpio fy merch gyda nhw."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Does dim darpariaeth ar gyfer plant ag ADY. Fe wnaethom hyd yn oed edrych ar adleoli i Fryste lle mae llawer mwy ar gael. Mae angen diwygio'r cwricwlwm i gefnogi pob plentyn i gael mynediad at addysg."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n teimlo bod plant ag ADY yn cael cam oherwydd maent eisiau dysgu ond nid oes unrhyw ddarpariaethau iddynt ddysgu'r ffordd y mae angen iddynt ddysgu – pegiau sgwâr mewn tyllau crwn."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae symudiad hefyd tuag at ysgolion mwy gydag ysgolion llai yn cau. Mae maint ysgol fy mab yn rhan o'r broblem, byddai'n bendant yn gwneud yn well mewn lleoliad llai, ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n helpu plant niwroamrywiol eraill ac eraill ar lefel ehangach."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Canolbwyntio ar ei diddordebau a'i chymhelliant – petai hi'n gallu, byddai hi yno ychydig ddyddiau'r wythnos ac yn llawn cymhelliant i wneud hynny. Nid yw TGAU yn addas i bawb. Rydw i'n gwybod eu bod nhw'n gwneud newidiadau yn 2027, ond dylai fod ar waith eisoes – ar hyn o bryd, nid yw'n addas iddi hi o gwbl ac mae'n cael cam."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Nid yw'r cwricwlwm i Gymru yn addas ar gyfer y plant hynny nad ydynt yn gallu cael addysg rhwng 9 a 3, mae angen mwy o opsiynau."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"[Mae angen] mwy o gyfleoedd galwedigaethol ar gyfer plant hŷn."*
**— Ymarferydd**



# Thema 5: Problemau gyda'r system ehangach

Cafwyd sylwadau am y system addysg yn ehangach, gan rieni ac ymarferwyr. Soniwyd am **gyllid** sawl gwaith, nid yn unig o ran peidio â bod yn ddigon i gefnogi pob plentyn, ond hefyd hysbysiadau hwyr am setliadau a'r effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar adnoddau, recriwtio a chadw staff profiadol.

Roedd rhieni'n teimlo'n rhwystredig oherwydd y **diffyg perchnogaeth ac atebolrwydd** yn y system, gyda neb yn cymryd cyfrifoldeb pan nad oedd camau gweithredu/cefnogaeth yn cael eu cyflawni, a theuluoedd yn dioddef y canlyniadau.

Er bod enghreifftiau lle'r oedd yr amrywiol asiantaethau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan gynnwys pan oeddent wedi'u cydleoli mewn Ysgolion Bro, roedd galw am **well cydlynu rhwng gwasanaethau** gan rieni ac ymarferwyr, a dull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar draws llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r rhwydweithiau cymorth.

Roedd rhai rhieni'n feirniadol o'r diwygiadau diweddaraf i'r **cod ADY**, gan ddweud ei bod hyd yn oed yn anoddach cael gafael ar gymorth i'w plant.

Cafwyd ceisiadau i archwilio'r system ysgol gyfan ac i ba raddau y mae'r system ei hun yn cyfrannu at broblemau presenoldeb plant. Credwyd bod gormod o ddibyniaeth ar **ddull 'un ateb i bawb' ynghylch presenoldeb**, h.y. rhaid i chi fod yn yr ysgol 100% pan ddylid ystyried presenoldeb o 80% yn gyflawniad da i rai plant. Roedd rhieni'n cwestiynu **defnyddio dirwyon** o ystyried eu sefyllfaoedd eu hunain, ac yn gwrthwynebu bod ysgolion yn **gwobrwyo presenoldeb o 100%** hefyd, gan roi enghreifftiau o'u plant yn colli allan ar dripiau a gwobrau. Roeddent yn nodi anghysondeb rhwng sut mae rhesymau dros absenoldeb yn cael eu trin ymysg oedolion a phlant, er enghraifft, nid yw gorbryder a chyflyrau iechyd meddwl eraill bob amser yn cael eu derbyn fel rheswm dros absenoldeb awdurdodedig ar gyfer plant, ond eu bod ar gyfer oedolion. Soniodd rhai rhieni hefyd am **Estyn** ac a ddylai ei arolygiadau ddarparu mwy o gyd-destun wrth edrych ar bresenoldeb yn yr ysgol.

*"Byddwn wrth fy modd pe bai Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn edrych ar y system ysgolion ac yn cydnabod mai'r system ysgolion weithiau sy'n achosi'r problemau ac iechyd meddwl a thrawma. Mae tuedd o hyd i dybio mai'r cartref sydd yn ei achosi, yn hytrach na gweld sut mae'r system gyfan yn cyfrannu at yr achosion."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Gallwn golli pobl wrth i'r dyddiad cau ar gyfer cyllid agosáu. Anhawster wrth benodi pobl sydd â'r sgiliau iawn – gallwn hyfforddi, ond pan nad oes ond 12 mis (neu lai), nid yw'r argaeledd a'r gallu yn bodoli. Ac wedyn ar ôl cael eu hyfforddi, maent mewn perygl o gael eu colli os bydd y cyllid yn dod i ben. Mae gwir angen amlen gyllido tair i bum mlynedd ar gyfer cyllid."*
**— Ymarferydd**

*"Byddai cael y rolau'n barhaol yn hytrach na dim ond cynllun peilot yn ddefnyddiol iawn."*
**— Ymarferydd**

*"Yn anffodus, nid yw'r gyllideb yn ddigon mawr. Mae gennym y gallu i weithio gyda dim ond nifer cyfyngedig o deuluoedd. Dydw i ddim yn siŵr bod pobl eraill yn gwerthfawrogi'r pwysau sy'n cael ei roi ar y swydd."*
**— Ymarferydd**

*"Nid yw CDUau o reidrwydd yn cael eu dilyn, ond nid oes unrhyw beth y gallwch ei wneud am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Mae hi wedi bod allan o'r ysgol ers dros ddwy flynedd bellach, mae'r ysgol yn fy mygwth gyda dirwyon yn aml, ble mae'r cyfrifoldeb arnyn nhw?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind

*"Mae'r system gyfan yn ddiffygiol o'i seiliau i fyny ar gyfer plant ag awtistiaeth, nid dim ond yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, ond cefais fy ysgol newydd yn gweiddi arnaf yn llythrennol nad nhw sy'n ei atal rhag cael diagnosis o ADHD. Mewn geiriau eraill, y meddyg teulu – ond nid yw hynny'n wir, rydw i wedi bod at y meddyg teulu ac mae CAMHS wedi ein gwrthod ni ac wedi gwneud atgyfeiriad a dweud mai'r ysgol sydd â'r cyfrifoldeb pennaf. Felly mae'n gylch dieflig."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Cael rhywun y gallaf siarad â nhw mewn adran addysg. Mae bron fel na allwch chi siarad â'ch adran addysg a mynd drwy'r broses ysgol. Ond os bydd yr ysgol yn eich atal rhag uwchgyfeirio, i ble rydych chi'n mynd mewn gwirionedd? Mae'r ysgol yn dweud mai ADY ydyw, ADY yn dweud mai'r ysgol ydyw, nid yw'r naill na'r llall eisiau gwneud unrhyw beth."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Fe wnaethon ni gwynion ffurfiol am aelodau o staff, roedden ni'n cael ein diystyru i bob pwrpas gan wrth iddynt weithredu'n ymosodol a oedd yn golygu nad oedd gennym ddewis arall ond mynd addysgu gartref am y cyfnod hwnnw i ddianc o'r sefyllfa honno, a arweiniodd at drawma i ni fel teulu. Gwneuthum nifer o gwynion, a'r cwbl wnaeth y llywodraethwyr yn llythrennol oedd anwybyddu popeth."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n strwythuro'r gwasanaethau. Gallwn gymryd camau ar lefelau unigol gyda disgyblion, ond er mwyn sicrhau cynnydd ehangach rhaid mynd i'r afael â'r mater ar lefel y gymuned. Sut ydyn ni'n cydweithio mwy, a allwn ni ddefnyddio adeiladau cymunedol mewn ffordd wahanol i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac addysg a gwasanaethau plant ac ati, a hynny ar gael dan un to i deuluoedd?"*
**— Ymarferydd**

*"Mae dull clwstwr o gyfathrebu ar draws ysgolion yn gweithio'n dda. Cysylltu â'r EWS yn gynt cyn i'r problemau ymwreiddio. Gweithio amlasiantaethol effeithlon. Po fwyaf o ysgolion a gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r mater, yr hawsaf yw hi i roi cefnogaeth."*
**— Ymarferydd**

*"Mae Ysgolion Bro yn gallu addasu'n well gyda lefelau staffio uwch fel arfer. Edrych ar elfennau o'r gymuned a chydlynu sut y gellir eu cael i ymgysylltu â'r ysgolion. Sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at wasanaethau; gwell gwybodaeth a gwell cysylltiad â gwasanaethau eraill, cael amser i wneud cysylltiadau a deall sut gall y gwasanaethau hynny fod o fudd i'r ysgolion a'r teuluoedd."*
**— Ymarferydd**

*"Diwygio'r cod ADY yn llwyr oherwydd ei fod eisoes wedi gwneud system anobeithiol hyd yn oed yn anoddach i blant gael gafael ar gymorth yn y system addysg. Mae'r ymateb graddol i mi yn oedi'r cymorth. Gellid ei alw'n 'beth am lusgo hyn am ychydig mwy'."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Os yw rhieni'n cael dirwy ac nad yw'r presenoldeb yn gwella, dylid edrych ar y rhesymau pam. Nid y rhieni sydd ar fai, gan eu bod wedi talu'r ddirwy a dim byd wedi gwella. Mae £60 yn golygu wythnos o siopa bwyd i'n teulu, aethom heb ychydig i dalu'r ddirwy dim ond i ddangos nad dyna oedd yr ateb. Mae angen i'r llywodraeth ddeall bod rhywbeth yn digwydd, nid dim ond rhianta diog, pan fydd pethau fel awtistiaeth a thrawma yn digwydd."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae nifer o blant sy'n wirioneddol wael yn feddygol, e.e. llawdriniaeth, plant â chanser. Ond does dim cod ar y gofrestr sy'n ein cefnogi ni gyda hynny – e.e. cyflwr dilys gyda thystiolaeth sy'n dweud eu bod yn methu mynd i'r ysgol, gan nad ydyn nhw'n gallu gwneud unrhyw beth yn ei gylch."*
**— Ymarferydd**

# Thema 6: Diffyg cefnogaeth i deuluoedd

Rhannodd rhieni yr effaith sylweddol y mae peidio â gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd wedi'i chael ar eu teuluoedd. Mae llawer wedi gorfod **lleihau eu horiau gwaith neu roi'r gorau i'w swyddi'n llwyr** i ddarparu cymorth addysgol ac iechyd meddwl i'w plant; dywedodd nifer o rieni wrthym fod eu plentyn wedi wynebu heriau iechyd meddwl difrifol, gan gynnwys hunan-niweidio a meddyliau hunanladdol. Nododd y rhieni fod **natur lethol ceisio cael y gefnogaeth gywir** i'w plentyn, a'r disgwyliad bod angen iddynt fynychu llawer o gyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol, hefyd yn effeithio ar eu gallu i barhau yn eu swyddi.

Roedd eu sefyllfaoedd yn gwneud iddynt deimlo **dan straen ac wedi'u trawmateiddio**, gydag effeithiau ar berthnasoedd ag aelodau eraill o'r teulu hefyd, gan gynnwys partneriaid a brodyr a chwiorydd. Dywedodd rhai fod eu **hiechyd meddwl eu hunain** wedi dioddef ac y byddent wedi elwa o gymorth iechyd meddwl eu hunain.

Byddai rhieni'n gwerthfawrogi **cyngor gwell a chliriach ar sut gallant gefnogi anghenion penodol eu plant** yn y tymor byr, fel y byddant, gobeithio, yn gallu ailgysylltu ag addysg yn y tymor hwy pan fyddant yn gallu, yn ogystal â chefnogi eu hunain a'u teuluoedd. Byddent hefyd yn croesawu **gwell cefnogaeth o ran sut i lywio'r system** a pha lwybrau sydd ar gael i'w plant. Soniwyd am **gymorth eiriolaeth** hefyd.

Soniodd rhai rhieni am ddefnyddio **grwpiau cymorth**, gan gynnwys ar Facebook, ond byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd i gwrdd a rhannu profiadau gyda rhieni eraill mewn sefyllfa debyg iddynt eu hunain.

Disgrifiodd nifer o rieni heriau penodol pan **symudodd eu plentyn o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**, a byddent wedi dymuno cymryd mwy o ran mewn trafodaethau a threfniadau ynghylch symud eu plentyn. Tynnodd ymarferwyr sylw at hyn fel sbardun posibl ar gyfer mwy o absenoldeb o'r ysgol hefyd.

Yn olaf, nodwyd ei bod yn llawer mwy cyffredin i famau fod yn cymryd yr awenau o ran delio â'r materion hyn ar ran eu plentyn, a arweiniodd at **effaith fwy sylweddol ar fenywod** na dynion mewn llawer o achosion. I bwysleisio'r pwynt hwn, dim ond un tad a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hyn o'i gymharu â 34 o famau.

*"Rydw i wedi gorfod mynd yn rhan-amser, ac rydw i hyd yn oed yn cael trafferth gyda hynny, gan na allwch chi eu gadael ar eu pen eu hunain a dydych chi byth yn gwybod sut bydd pethau."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rydw i wedi cael fy chwalu'n ariannol. Bu'n rhaid i mi roi'r gorau i fy swydd ar ôl 20 mlynedd. Dwi'n teimlo fy mod i wedi torri."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rwy'n hunangyflogedig ar bapur, ond prin y gallaf weithio ar hyn o bryd ac eithrio ar benwythnosau, sy'n golygu nad oes gennym lawer o amser teuluol gyda'n gilydd."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae wedi achosi llawer o densiwn rhyngof i a fy ngŵr, a rhwng fy mhlant eraill. Mae fy nau hynaf yn niwronodweddiadol, dim ond 13 mis rhyngddynt, a gyda fy mhlentyn hynaf yn gwrthod mynd yna mae'n effeithio ar yr ail hynaf – 'Os nad yw ef yn mynd, pam ddylwn i?'"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae wedi cael effaith ar frodyr a chwiorydd eraill sy'n herio mynd i'r ysgol hefyd... Mae'n mynd yn eithaf anodd i'r plant iau ddeall beth sy'n digwydd."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"I ni, ei gweld hi mor anhapus a dim cefnogaeth. Taro ein pennau yn erbyn waliau brics, ymbil ar bobl i gael unrhyw fewnbwn, ac fel teulu mae pob un ohonom wedi ymlâdd, mae gennym blant eraill. Rydych chi eisiau cadw eich plentyn yn ddiogel, rydych chi eisiau iddyn nhw fod yn hapus. Rydw i'n teimlo fy mod i'n un o nifer sy'n gwneud cam â'r plant. Mae fy ngŵr yn teimlo'n ddiymadferth."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae yna lawer o euogrwydd. Rwy'n teimlo'n euog wrth anfon fy mab i mewn, ac mae'n teimlo'n euog fel petai yn ein siomi."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Lefel y straen a'r tensiwn a'r pwysau. Ac mae ceisio peidio â dangos hynny i'ch plentyn yn anodd iawn. Rydyn ni'n deulu positif iawn, ac os ydyn ni'n cael trafferth... tybed sut mae teuluoedd eraill yn ymdopi mewn gwirionedd. Mae'n teimlo fel ei fod yn hawlio bob munud o bob dydd."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Does dim cymorth ar gael i rieni ar hyn o bryd chwaith – pan oedden ni'n mynd drwy'r anawsterau roedd angen cymorth iechyd meddwl ar y ddau ohonon ni, ond ni chynigiwyd hynny i ni."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Strategaethau y gallaf eu gwneud fel rhiant i helpu. Rydw i'n teimlo ar goll ar y funud, dydw i ddim yn gwybod a yw fy mhlentyn yn y sefydliad iawn – rydw i'n teimlo fy mod i'n dyfalu. Dylid darparu hyfforddiant i athrawon a rhieni ar y ffordd orau o gefnogi yn y sefyllfa hon. Dydw i ddim yn gwybod beth i'w wneud pan fydd gen i blentyn yn hunan-niweidio yn y bore, beth ddylwn i fod yn ei wneud er gwell?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Mae straen arna i oherwydd fy mod i'n ceisio dal swydd amser llawn, wrth edrych ar addysg gartref, e-bostio sawl person cymorth. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi dysgu iaith newydd gyda'r holl ASDau, EPau a LNau, ac ati."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Mae'n debyg fy mod i wedi ymuno â phob grŵp Facebook sy'n bodoli ar bresenoldeb, rydw i wedi cofrestru ar gyfer grŵp eiriolaeth cenedlaethol – Sunshine Support, wedi cofrestru ar gyfer eu hacademi, wedi mynd ar ddegau o weminarau, wedi lawrlwytho ac argraffu'r Ddeddf ADY yng Nghymru ac wedi darllen honno, wedi mynd ar wefannau'r cyngor – y cyfan drwy hunangyfeirio. Pan fyddwch yn mynd allan ac yn gofyn, gallwch gael pethau. Rydw i wedi cael gweminarau ar orbryder neu gwsg ar gyfer plant awtistig. Mae pethau ar gael ar ôl i chi wneud rhai cysylltiadau, ond mae cymaint yn hunan-gyfeiriedig. Mae'n anodd iawn llywio drwy'r cyfan."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Ceisio dod o hyd i'r gefnogaeth honno yw'r broblem. Mae angen yr amser a'r egni meddyliol arnoch i fynd drwy'r gwaith ymchwil a'r gwaith papur."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Rwy'n gwybod bod pob plentyn yn wahanol, ond nid oedd yn ymddangos bod llwybr – pam nad oes llwybr, hyd yn oed os oes canghennau ohono? Pam nad oes neb wedi helpu i weld beth allai'r opsiynau fod, dim ond i helpu'r rhieni i ddeall?"*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Efallai rhyw fath o gefnogaeth, cyfarfod yn y ddinas unwaith y mis, oherwydd roeddwn i'n teimlo mai fi oedd yr unig berson yn y byd a oedd yn mynd drwy'r frwydr hon. Gwybod bod rhieni eraill yn mynd drwy hyn, gallu eistedd a thrafod gyda nhw, a gwybod nad chi yw'r unig un sy'n gwneud hyn, dydych chi ddim ar eich pen eich hun."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**

*"Byddai llyfrynnau i rieni [yn gwneud gwahaniaeth mawr] – ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn gwneud eu gwaith eu hunain, ond gallai Llywodraeth Cymru wneud y gwaith o greu un farn a'i chyflwyno sawl gwaith."*
**— Ymarferydd**

*"Mae angen mwy o wasanaethau eiriolaeth arnom – pobl sy'n gyfarwydd â'r Cod ADY, cefnogaeth foesol mewn cyfarfodydd; mae rhieni sy'n mynd ar eu pen eu hunain yn cael eu diystyru. Byddai'n help cael pobl sydd wedi bod drwyddo o'r blaen, ond mae'n eithaf anodd dod o hyd i eiriolwr i'ch helpu i fynd i gyfarfod."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"[Parthed pontio i'r ysgol uwchradd] Iddyn nhw ddod i adnabod ein plant oddi wrthym ni fel rhieni. Er mwyn i ni allu cael cyswllt mwy uniongyrchol, nid dim ond drwy waith papur. Cael barn rhieni'n uniongyrchol ynghylch beth fydd ei angen ar eu plentyn yn y dyfodol."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rydw i'n teimlo'n lwcus iawn, mae fy merch yn symud i ysgol dda. Rydw i wedi cael llawer o gyswllt cyn i fy merch symud drwy e-bost, er mwyn ei deall cyn iddi symud. Nid oedd unrhyw CDU ar y pryd, felly roedd y cyswllt yn golygu eu bod yn gwybod am yr heriau roedd hi'n eu hwynebu o'r dechrau."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rydw i'n colli cwsg drosto ar hyn o bryd oherwydd rydw i wedi cael cyn lleied o gefnogaeth yn ystod Blynyddoedd 5 a 6."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran cynradd**

*"Rwy'n credu bod y baich yn disgyn yn anghymesur ar fenywod – mae'r holl fater hwn yn anodd, cyfathrebu, delio â'r mater hwn. Dydw i ddim wedi gweld unrhyw ddynion mewn grwpiau cefnogi chwaith."*
**— Rhiant sydd â phlentyn oedran uwchradd**



# Argymhellion

**Yng ngoleuni'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil, isod mae ein hargymhellion i wella'r gefnogaeth i rieni â phlant sydd â phroblemau presenoldeb sylweddol:**

**1. Galluogi ysgolion i ddarparu dull mwy effeithiol ac empathig o ddelio â rhieni plant sydd â phroblemau absenoldeb parhaus.** Darparu hyfforddiant ar niwroamrywiaeth i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant i wella dealltwriaeth o sut i gefnogi plant niwroamrywiol; osgoi ymddangos fel pe baent yn beio rhieni a nodi un pwynt cyswllt i rieni sy'n ceisio cymorth i'w plentyn gysylltu ag ef. Cynnwys y plentyn mewn unrhyw gyfarfodydd a thrafodaethau ar ei anghenion a'i gwneud yn ofynnol i CADYau fod yn rolau annibynnol fel eu bod yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar eu cyfrifoldebau ADY.

**2. Darparu asesiadau amserol o anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer yr holl blant sydd eu hangen.** Mae diagnosis cynnar o anghenion dysgu ychwanegol, ochr yn ochr â'r cymorth sydd ar gael, yn debygol o leihau'r achosion o absenoldeb difrifol i rai plant. Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno asesiad/sgrinio ysgafn ar gyfer niwroamrywiaeth ar gyfer pob disgybl sy'n dechrau yn yr ysgol, a darparu cyfeiriadur o ddarparwyr asesiadau anghenion dysgu cymeradwy a fyddai'n cael eu derbyn gan bob ysgol/awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer rhieni sy'n dymuno gofyn am asesiad preifat o anghenion eu plentyn.

**3. Cynyddu cymorth anghenion dysgu ychwanegol a chymorth iechyd meddwl plant fel bod pob plentyn sydd ei angen, boed y rheini wedi'u hamlinellu mewn Cynllun Datblygu Unigol ai peidio, yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r ysgol.** Darparu eglurder ynghylch pa gymorth sydd ar gael heb ddiagnosis ffurfiol a sicrhau bod hyn yn gyson ledled Cymru, a nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol /atebol am sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu. Annog ymarferwyr i rannu straeon am lwyddiant ac enghreifftiau o arferion gorau o ran presenoldeb er mwyn i gydweithwyr o wahanol rannau o Gymru allu dysgu o brofiadau pobl eraill a cheisio osgoi cyhoeddiadau hwyr am gyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth, fel y Gwasanaeth Lles Addysg a Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i annog staff hyfforddedig a phrofiadol i beidio â chael eu gorfodi i adael i chwilio am waith yn rhywle arall.

**4. Archwilio'r posibilrwydd o ddarparu dysgu ar-lein hirdymor fel dewis arall yn lle mynd i'r ysgol ar gyfer plant nad oes modd diwallu eu hanghenion mewn ysgol neu leoliad darpariaeth arbenigol.** Byddai'r ddarpariaeth hon hefyd yn ddefnyddiol i rai plant sydd ar absenoldeb tymor byr i'w hatal rhag mynd ar ei hôl hi yn eu dysgu a chadw cysylltiad ag addysg ffurfiol.

**5. Creu a chynnal storfa o gefnogaeth a chyngor i rieni plant â phresenoldeb isel.** Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am lwybrau a llywio drwy'r system addysg os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol, cymorth ar gael ar gyfer rhwystrau eraill rhag mynychu (e.e. grantiau sydd ar gael ar gyfer costau ysgol, fel gwisg ysgol a thrafnidiaeth), cyngor ar sut i gefnogi eich plentyn gyda niwroamrywiaeth a/neu heriau iechyd meddwl, a rhestr o grwpiau cymorth i rieni a manylion gwasanaethau cymorth eiriolaeth.

**6. Adolygu'r canllawiau cenedlaethol ar bresenoldeb.** Ystyried a oes cyfle i gael mesurau ychwanegol sy'n cofnodi ymgysylltiad plant ag addysg yn hytrach na

phresenoldeb yn yr ysgol yn benodol: ar gyfer plant sydd â phroblemau absenoldeb sylweddol, nid yw targed presenoldeb o 90% yn realistig ac efallai nad yw'n helpu i sbarduno ymddygiad a gweithredoedd cefnogol, ond efallai y byddant yn gallu ymgysylltu â dysgu gartref, ar yr amod bod y ddarpariaeth ar gael (gweler argymhelliad 4). Gwerthuso effeithiolrwydd dirwyon o ran gwella presenoldeb/ymgysylltu. Galluogi cydlynu gwasanaethau'n well gyda dull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a'r rhwydweithiau cymorth, ac ymchwilio i sut mae Ysgolion Bro yn rheoli absenoldeb o'i gymharu ag ysgolion eraill.

**7. Cynnal adolygiad o'r Cod ADY i ddeall i ba raddau y mae'n diwallu anghenion plant, a sut mae perfformiad ysgolion o ran cyflawni yn erbyn y Cod ADY yn cael ei fesur.** O'r hyn a ddywedodd rhieni yn yr ymchwil hon wrthym, nid yw'r uchelgeisiau yn y Cod ADY yn cael eu gwireddu'n llawn eto, ac mae mwy y gellir ei wneud i Gymru fod yn wlad sy'n arwain y byd yn y maes hwn.

**8. Cynnal rhagor o ymchwil i ffyrdd effeithiol o gefnogi plant a theuluoedd sydd â phresenoldeb gwael,** gan adeiladu ar ddulliau Ysgolion Bro a defnyddio swyddogion ymgysylltu â theuluoedd / cefnogi teuluoedd.



## Astudiaeth achos: School Home Support[6]

Mae School Home Support (SHS) yn elusen sydd â hanes o lwyddiant o ran lleihau absenoldeb parhaus a difrifol. Mae'r elusen yn mabwysiadu 'model teulu cyfan' i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol presenoldeb gwael yn yr ysgol drwy weithiwr allweddol ('ymarferydd') a benodir i weithio ochr yn ochr â theulu i feithrin perthynas o ymddiriedaeth hirdymor.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda theuluoedd dros gyfnod o chwech i wyth mis, ar gyfartaledd, i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal presenoldeb da yn yr ysgol. Yn seiliedig ar eu Hadroddiad Effaith ar gyfer 2022/23, mae SHS wedi cyflawni canlyniadau sylweddol o ran gwella presenoldeb ar gyfer plant ag absenoldeb mynych a difrifol:

- Mae 70% o'r plant maen nhw'n gweithio gyda nhw wedi cyflawni cynnydd cyfartalog o 8.4% yn eu cyfradd presenoldeb, sy'n cyfateb i 17 diwrnod ychwanegol yn yr ysgol.
- Roedd 73% o'r plant roeddent yn gweithio gyda nhw a oedd yn absennol yn gyson wedi cyflawni gwelliant cyfartalog o 10% yn eu presenoldeb, sy'n cyfateb i 20 diwrnod ychwanegol yn yr ysgol.
- Roedd 86% o'r plant roeddent yn gweithio gyda nhw a oedd ag absenoldeb difrifol wedi cyflawni gwelliant cyfartalog yn eu presenoldeb o 20%, sy'n cyfateb i 40 diwrnod ychwanegol yn yr ysgol.

Mae gwaith SHS wedi cael ei gefnogi gan felin drafod y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol sydd wedi galw ar yr Adran Addysg i ariannu "ymarferwyr presenoldeb mewn ysgolion" i weithio gyda phlant ag absenoldeb difrifol gan ddefnyddio model SHS7. Mae'r dystiolaeth gan y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol yn awgrymu y gallai cyllido 'ymarferwyd presenoldeb mewn ysgolion' sy'n seiliedig ar fodel SHS wella presenoldeb yn yr ysgol yn sylweddol ar gyfer plant sy'n absennol o'r ysgol yn rheolaidd.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ei hasesiad ei hun o 'fodel teulu cyfan' SHS a gwaith ymarferwyr i ddeall y potensial ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus a difrifol yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r asesiad hwn i benderfynu a ellid sefydlu corff sy'n cyfateb i SHS yng Nghymru gyda chyllid ar gyfer 'ymarferwyr absenoldeb mewn ysgolion' i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i blant yng Nghymru sydd â phresenoldeb gwael.

[6] https://www.schoolhomesupport.org.uk/our-impact-improving-persistent-absence/our-impact-reports

[7] https://www.centreforsocialjustice.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/CSJ-Lost_but_not_forgotten-2.pdf



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind